DATGANIAD I'R WASG

6 Gorffennaf 2009

Magnox yn cefnogi ieuenctid Môn

Diolch i gefnogaeth Magnox North, teithiodd bron i 500 o ieuenctid yr holl ffordd o Fôn i lawr i dde Cymru er mwyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd y mis diwethaf. Derbyniodd disgyblion cynradd ac uwchradd gefnogaeth ariannol i'w cynorthwyo gyda'r costau o deithio i lawr i'r brif ddinas. Hefyd, llwyddodd tîm rhanbarthol yr Urdd ym Môn i brynu piano drydan a system sain newydd ar gyfer ysgolion, adrannau ac aelwydydd yr ynys eu defnyddio yn rhad ac am ddim, ar gyfer canu carolau, cyngherddau a sioeau, diolch i Magnox.

Yn ôl **Eryl Williams,** Swyddog Datblygu'r Urdd ym Môn: "Roedd rhai adrannau ac aelwydydd yn cael trafferthion codi'r arian ar gyfer teithio'r holl ffordd i lawr i Fae Caerdydd eleni. Felly, buom mewn cysylltiad â chwmnïau lleol i holi am gymorth a chefnogaeth ariannol. Cytunodd Magnox North, y cwmni sydd wedi ennill cytundeb i weithio ym Mhwerdy'r Wylfa, i gynnig help llaw. Roedden nhw hefyd yn fodlon cefnogi ein cais i brynu offer technegol a cherddorol yr oedd tiwtoriaid ac athrawon y sir wedi bod yn holi amdanynt. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth, a gobeithio y gallwn ni gydweithio â nhw ar brosiectau ieuenctid eto yn y dyfodol."

Dywedodd **John Idris Jones** o safle Magnox North yn yr Wylfa: "Mae'r Wylfa yn ceisio annog a chefnogi gweithgareddau sydd o fudd i'r cymunedau lleol. Roedden ni'n awyddus i gynnig cyfleodd i bobl ifanc gogledd Cymru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd, ac rydyn ni'n hynod o falch bod ein nawdd wedi galluogi'r bobl ifanc i gyflawni hynny."

diwedd

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Manon Llwyd yn Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.